
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Pen y Gogarth, Llandudno

*"Darganfyddwch gyfrinachau Pen y Gogarth! Mae'r daith gerdded hygyrch hon yn darparu golygfeydd anhygoel tuag at Ynys Môn, mae wedi ei tharmacio ac mae digon o seddi ar gyfer ymwelwyr llai heini neu rai iau – sy'n ei gwneud yn ddelfrydol ar gyfer y teulu cyfan."*

**GRUFF OWEN, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

## Dechrau/Diwedd:

Caffi Rest and be Thankful ar bromenâd Pen y Gogarth i Ben Morfa

## Pellter:

4km / 2 filltir o gaffi Rest and Be Thankful i bromenâd Pen Morfa. Taith gerdded Estynedig: o bromenâd Penmorfa drwy'r orsaf dramiau a theithiau tram yn ôl i gopa copa y Gogarth a thaith gerdded yn ôl i'r caffi Rest and Be Thankful yn 5km / 3 milltir].

## Gwybodaeth:

Cychwynnwch ar eich taith ym maes parcio caffi Rest and be Thankful lle gwelwch banel y profiad realiti estynedig. Defnyddiwch ap Llwybr Arfordir Cymru ar eich dyfais symudol (ffôn clyfar neu dabled) i gwrdd â glöynnod byw prin a chwarae gêm hyfforddi'r Ail Ryfel Byd! Dilynwch y llwybr gan droi i'r dde allan o faes parcio'r caffi. Mae'r llwybr yn dilyn palmant Cylchdro'r Gogarth o amylch Pen y Gogarth i bromenâd Pen Morfa – mae toiledau, caffis, lle chwarae a thraeth yno. Dychwelwch ar yr un llwybr.

I ymestyn eich taith, dilynwch lwybr 'taith y cleifion' y tu ôl i dref Llandudno. Gan ddechrau wrth y toll-dy ym Mhen Morfa tuag at Draeth y Gogledd, prif draeth Llandudno gyda'i bier Fictorianaidd hir a'i bromenâd llydan. Mae'r daith hon yn dechrau trwy ddringo'n serth (anaddas ar gyfer cadeiriau olwyn) ac yn mynd trwy Gerddi Haulfre, gan ddarparu golygfeydd panoramig tuag at Gonwy a dros Landudno. Ewch ar dram o Orsaf Pen y Gogarth nôl i fyny i gopa Pen y Gogarth lle mae llwybr i gaffi Rest and be Thankful.

## Ar y ffordd...

Edrychwch am eifr, glöynnod byw ac nodweddion daearegol unigryw.

## Cynlluniwch eich ymweliad:

**CAFFI REST AND BE THANKFUL:** restandbethankful.net
**TRAMFFORDD PEN Y GOGARTH:** greatormetramway.co.uk
**TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS:** traveline.cymru
**GWEFAN DWIRISTIAETH:** cy.visitllandudno.org.uk

## Cyn gadael:

Lawrlwythwch ap Llwybr Arfordir Cymru er mwyn profi'r ardal mewn Realiti Estynedig.

ANDROID APP ON Google play
Download on the App Store

